

# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

EOC(3)-16-09 : Papur 3: 1 Rhagfyr 2009

**Ymchwiliad i wahaniaethu yn erbyn pobl sy'n byw gyda HIV gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol a darparwyr gofal iechyd**

**Tystiolaeth gan y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

1. Mae'r papur hwn yn cyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor ar: epidemioleg HIV yng Nghymru; stigma a gwahaniaethu sy'n gysylltiedig â HIV; polisïau a gweithdrefnau cyfredol ar atal trosglwyddo HIV mewn lleoliadau gofal iechyd; a chydaddoldeb a HIV.

## HIV yng Nghymru

2. Ymgymerir â gwyliadwriaeth HIV/AIDS yn y DU gan yr Asiantaeth Diogelu Iechyd (ADI) mewn cydweithrediad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i gasglu data yng Nghymru. Cyhoeddwyd yr adroddiad gwyliadwriaeth diweddaraf ar HIV yn y DU gan yr ADI fis Tachwedd 2008. Yng Nghymru:
  - Hyd at ddiwedd Rhagfyr 2008, bu 1600 diagnosis o unigolion wedi'i heintio â HIV.
  - Bu 133 diagnosis newydd o heintiad HIV yn 2008. Mae hyn yn ostyngiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol pan gofnodwyd 193 diagnosis newydd, y nifer uchaf i gael ei gofnodi ers dechrau'r epidemig.
  - Cofnodwyd 12 diagnosis newydd o AIDS ac 11 marwolaeth o ganlyniad i salwch yn gysylltiedig ag AIDS yn 2008.
  - Ceir y darlun gorau o nifer y bobl sy'n byw â HIV/AIDS gan y cynllun HPA SOPHID (Arolwg o nifer y diagnosis heintiadau HIV) sy'n cyfrif nifer y bobl sy'n derbyn gofal sy'n gysylltiedig â HIV. Defnyddir y data hwn i asesu nifer yr achosion o HIV/AIDS gan y Bwrdd Iechyd Lleol preswyl ac maent yn ddefnyddiol ar gyfer cynllunio ac ariannu gwasanaethau gofal HIV.
  - Mae data SOPHID yn dangos cynnydd cyson yn nifer y bobl sy'n byw yng Nghymru ac sy'n byw â HIV sy'n derbyn gofal yng Nghymru (o 468 yn 2002 i 1009 yn 2007). Gellir priodoli'r cynnydd hwn yn ystod y blynyddoedd diweddar yn rhannol i well cyfraddau goroesi ymhlith rhai wedi'u heintio â HIV yn y gorffennol, a phobl sy'n mewnfudo i Gymru sydd wedi'i heintio mewn gwlad dramor.

## HIV, stigma a gwahaniaethu mewn lleoliadau iechyd

3. Nid oes tystiolaeth ddigonol o gwynion ffurfiol i awgrymu bod pobl sy'n byw â HIV yn profi gwahaniaethu gan weithiwr proffesiynol a darparwyr gofal iechyd. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod nad yw hyn o reidrwydd yn golygu nad yw pobl wedi profi gwahaniaethu.
4. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ariannu'r Rhwydwaith HIV Cymru Gyfan. Nod y rhwydwaith yw dwyn ynghyd bobl sy'n byw â HIV a darparwyr gwasanaeth a llunwyr polisi i ddylanwadu a gwella'r gwasanaethau a ddarperir. O ganlyniad i waith Rhwydwaith HIV Cymru Gyfan mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymwybodol o rai adroddiadau anecdotaidd am y stigma a'r gwahaniaethu y mae rhai pobl sy'n byw â HIV yn ei brofi o ran eu gofal iechyd. Mae'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yn y papur tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan Ymddiriedolaeth AIDS Cymru. Dylid nodi hefyd fod llawer o bobl sy'n byw â HIV yn dweud eu bod yn fodlon â'r ddarpariaeth gofal iechyd maent yn ei derbyn. Cydnabyddir bod angen ymchwil pellach i ddysgu mwy am brofiadau pobl sy'n byw â HIV o safbwynt gwahaniaethu a darpariaeth gofal iechyd.
5. Ym mis Awst 2009 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y ddogfen 'Darparu ar gyfer anghenion pobl gyda HIV/AIDS yng Nghymru: Llwybrau Gofal Cenedlaethol a manyleb gwasanaeth ar gyfer profi, diagnosis, triniaeth a gofal cefnogol'.<sup>1</sup> Mae'r Fanyleb yn cydnabod bod stigma'n parhau ynghlwm wrth heintiad HIV ynghyd â'r angen i weithio mewn partneriaeth ar draws asiantaethau. Mae'r Fanyleb wedi'i chynllunio i sicrhau bod gwasanaethau'n gallu gweithio o fewn fframwaith cyson, integredig ledled Cymru, i ddarparu mynediad cyfartal i gleifion at wasanaethau sy'n seiliedig ar angen. Ysgrifennodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at bob BILL ym mis Awst i ofyn iddynt sicrhau eu bod yn darparu gwasanaethau drwy rwydweithiau clinigol sy'n cyd-fynd â'r llwybr gofal a manyleb y gwasanaeth.<sup>2</sup>
6. Ym mis Mai 2009 lanswyd Iechyd a Lles Rhywiol ar gyfer Cymru, 2009-2014: Papur Gwaith Drafft<sup>3</sup> at ddibenion ymgynghori (daeth yr ymgynghoriad i ben ar 5 Hydref 2009). Mae'n cynnig datblygu cynllun gweithredu, mewn partneriaeth â Rhwydwaith HIV Cymru Gyfan, i fynd i'r afael â stigma a gwahaniaethu sy'n gysylltiedig â HIV (sy'n ymdrin â phob agwedd ar fywyd, gan gynnwys darpariaeth gofal iechyd, cymorth cymdeithasol, a chyflogaeth). Er mwyn datblygu'r cynllun gweithredu bydd yn rhaid rhoi sylw i'r diffyg tystiolaeth o ran profiadau o wahaniaethu fel rhan o asesiad ehangach o anghenion a fydd yn ymdrech i gyrraedd sampl fawr, gynrychioliadol o bobl sy'n byw â HIV

---

<sup>1</sup> <http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/guidance/hiv/aids/?lang=cy>

<sup>2</sup> <http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/ministerial/letter02109/?lang=cy>

<sup>3</sup> <http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/sexualhealth/?lang=cy&status=closedout>

yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio â Rhwydwaith HIV Cymru Gyfan i ystyried sut y gellir gweithredu ar hyn o Ebrill 2010 ymlaen.

## Canllawiau clinigol ar atal HIV mewn lleoliadau gofal iechyd.

7. Mae set o Weithdrefnau Cenedlaethol ar Reoli Heintiau'n cael eu datblygu a byddant yn cael eu defnyddio ar draws pob ffin gofal iechyd gan Raglen Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd Cymru, dan ofal Iechyd Cyhoeddus Cymru. Datblygwyd y rhain yn dilyn adolygiad o'r llenyddiaeth a'r sail tystiolaeth berthnasol. Mae'r rhai a gyhoeddwyd yn cynnwys: *Cyfarpar Diogelu Personol*; ac *Occupational Exposure Management, including needlestick injuries*.<sup>4</sup> Cyn hir bydd *Management of Blood and Body Fluid Spillages* yn cael ei gyhoeddi. Os glynir yn gaeth ato, yna bydd y rhagofalon a gymerir yn delio'n briodol ag unrhyw firws a gludir gan waed. Hefyd ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru mae Canllawiau ar gyfer Sector Gofal Sylfaenol Cymru Gyfan ynghylch Anafiadau wrth Frechu.<sup>5</sup> Mae'r canllawiau hyn yn ategu arferion mewn practisau meddygon teulu yng Nghymru o ran rheoli anafiadau a achosir gan nodwyddau ac wrth ddod i gysylltiad â gwaed a hylifau'r corff, a hynny yn achos aelodau staff a'r cyhoedd. Mae'r canllawiau'n rhoi argymhellion ar gyfer arferion da, sy'n seiliedig ar y dystiolaeth orau o effeithiolrwydd clinigol sydd ar gael.
8. Yn achos deintyddion, mae'r cyngor canlynol ar gael: *A12 Advice Sheet Infection Control in Dentistry*<sup>6</sup> (Cymdeithas Ddeintyddol Prydain) a'r *HTM-01-05 Decontamination in Primary Care Dental Practices* arfaethedig.
9. Mae'r dogfennau a ganlyn, y Cylchlythyrau Iechyd Cymru a ganlyn a'r llythyrau a ganlyn gan y Prif Swyddog Meddygol yn ymdrin â diagnosis a thrin pobl â HIV, neu â phrofi gweithwyr gofal iechyd am firsau a gludir gan waed, gan gynnwys HIV.
10. *HIV infected healthcare workers: guidance on management and patient notification*.<sup>7</sup>  
*Cyhoeddwyd Cylchlythyr Iechyd Cymru (2005) 073 ar y pwnc hwn ar 26 Medi 2005*.<sup>8</sup>  
Mae'r ddogfen yn edrych ar y polisi newydd ar ymarferiadau hysbysu cleifion pan ganfyddir bod gweithiwr gofal iechyd wedi'i heintio â HIV. Mae'n dilyn cyngor arbenigol gan y Grŵp Cyngori Arbenigol ar AIDS (EAGA) a Phanel Cyngori'r DU ar gyfer Gweithwyr Gofal Iechyd sydd

<sup>4</sup> <http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=379&pid=38960>

<sup>5</sup> <http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=457&pid=27687>

<sup>6</sup> [http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH\\_4120904](http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH_4120904)

<sup>7</sup> [http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH\\_4116415](http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH_4116415)

<sup>8</sup> <http://www.wales.nhs.uk/page.cfm?orgid=1&pid=12289>

wedi'u Heintio â Firysau a Gludir gan Waed (UKAP). Maent yn dweud nad oes angen bellach hysbysu pob claf sydd wedi cael triniaeth lle mae posibilrwydd o ddod i gysylltiad â'r feirws yn yr achosion hynny lle mae'r driniaeth honno wedi'i rhoi gan weithiwr gofal iechyd sydd wedi'i heintio â HIV, a hynny oherwydd bod y risg o drosglwyddo yn isel ac oherwydd y pryder a achosir i gleifion a'r cyhoedd yn gyffredinol. Hefyd, mae gan weithwyr gofal iechyd sydd wedi'u heintio â HIV yr un hawl i gyfrinachedd â phob unigolyn arall ac nid yw'n ofynnol iddynt hysbysu cleifion am unrhyw gyflwr meddygol a all fod arnynt. Fodd bynnag, mae'r cyfyngiad sy'n bodoli ers amser ar weithwyr gofal iechyd wedi'u heintio â HIV sy'n ymgymryd â thriniaethau o'r fath yn parhau.

11. *Health clearance for tuberculosis, hepatitis B, hepatitis C and HIV: New healthcare workers 2006.*<sup>9</sup>

*Cyhoeddwyd Cylchlythyr Iechyd Cymru (2006) 86 ar y pwnc hwn ar 2 Gorffennaf 2007.*<sup>10</sup>

Mae'r canllaw hwn yn rhoi cyngor ar gliriadau iechyd i weithwyr gofal iechyd newydd mewn perthynas â thwbercwlosis, hepatitis B, hepatitis C a HIV. Mae'r canllaw'n argymhell y dylai pob gweithiwr gofal iechyd newydd gael archwiliad ar gyfer clefyd / imiwnedd twbercwlosis a'u bod yn cael cynnig eu himiwneiddio rhag hepatitis B, gyda phrofion ôl-imiwneiddio i ganfod yr ymateb ac i gynnig profion ar gyfer hepatitis C a HIV, ac y dylid cynnal y rhain ar unwaith ar ôl eu penodi. Yn achos gweithwyr gofal iechyd newydd a fydd yn cynnal triniaethau lle mae perygl o ddod i gysylltiad â heintiau, dylid cynnal cliriadau iechyd ychwanegol, gan gynnwys cadarnhad nad ydynt wedi'i heintio â HIV. Dylid cwblhau'r archwiliadau hyn cyn cadarnhau penodiad i swydd EPP, gan na fydd y gweithiwr gofal iechyd yn gymwys os canfyddir ei fod wedi'i heintio.

12. Nid atal y rheini sydd wedi'u heintio â firysau a gludir gan waed rhag gweithio yn y GIG yw'r rheswm dros yr argymhellion hyn, ond eu hatal rhag gweithio mewn meysydd clinigol lle gallai eu haint achosi risg i gleifion yn eu gofal. Mae hyn yn gydnaws â'r polisi presennol, sy'n gosod cyfyngiadau ar arferion gweithio'r rheini y mae'n hysbys eu bod yn gludwyr sydd wedi'u heintio â HIV, hepatitis B a hepatitis C. Y nod yw sicrhau cydbwysedd rhwng y risg i gleifion a phreifatrwydd gweithwyr gofal iechyd. Er mwyn sicrhau bod pob gweithiwr gofal iechyd newydd yn cael yr archwiliadau hyn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, ers 2006/7, wedi darparu dyraniad rheolaidd o £100,000 y flwyddyn i'r GIG yng Nghymru

13. *Llythyr y Prif Swyddog Meddygol 30 Hydref 2007 – Gwella dulliau o ganfod ac adnabod HIV mewn arbenigeddau heblaw HIV gan gynnwys gofal sylfaenol.*<sup>11</sup>

<sup>9</sup>[http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH\\_073132](http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH_073132)

<sup>10</sup><http://www.wales.nhs.uk/page.cfm?orgid=1&pid=23020>

<sup>11</sup><http://wales.gov.uk/topics/health/ocmo/publications/cmo/2007/hiv/?lang=cy>

Mae'r llythyr hwn yn tynnu sylw at yr arferion gorau wrth gynnig ac argymell, lle bo hynny'n briodol, profion HIV ym mhob lleoliad gofal iechyd, nid dim ond yn y rheini sy'n cynnig y gwasanaeth hwn fel arfer. Mae buddiannau amlwg i iechyd y cyhoedd ac i unigolion os ydynt yn gwybod eu statws HIV, yn enwedig os oes mwy o risg iddynt gael HIV neu os ydynt yn bartner i rywun sy'n risg uwch. Mae'r llythyr hwn yn annog meddygon a nyrsys i fod yn ymwybodol o'r amgylchiadau lle byddai'n briodol i gynnig ac argymell prawf HIV. Mae hyn yn bwysig iawn os yw claf mewn perygl amlwg ond nad yw'n cydnabod hynny neu pan fo ganddo symptomau neu arwyddion o'r haint HIV.

14. *Llythyr y Prif Swyddog Meddygol 23 Medi 2008: HIV post-exposure prophylaxis: Guidance from the UK Chief Medical Officer's Expert Advisory Group on AIDS*<sup>12</sup>

Mae'r ddogfen hon yn diweddarau'r canllaw ar broffylaxis ar ôl dod i gysylltiad â HIV galwedigaethol (PEP) gan Grŵp Cyngori Arbenigol Prif Swyddogion Meddygol y DU ar AIDS (EAGA).

## HIV a Chydraddoldeb

15. Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol wedi'u hymgorffori ym mhob agwedd ar waith y GIG yng Nghymru drwy'r Fframwaith Gwerthoedd a Safonau Ymddygiad, Safonau Gofal Iechyd Cymru a'r Fframwaith Llywodraethu.<sup>13</sup> Maent hefyd yn dermau a ddefnyddir i ddiffinio gwerthoedd cymdeithas, sydd wedi'u hymgorffori yn Neddfwriaeth y DU, a Chytundebau'r Cenhedloedd Unedig. Maent yn ymdrechu i hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb, gan roi cyfle i bob unigolyn gyflawni'i botensial, heb ragfarn na gwahaniaethu, a'r hawl i gael ei drin yn deg, â pharch, cydraddoldeb, urddas ac ymreolaeth. Mae'r fframwaith deddfwriaethol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus hybu cydraddoldeb ym mhopeth a wnânt.
16. Mae grwpiau proffesiynol o fewn y GIG hefyd wedi ymrwymo i lynu wrth eu codau ymddygiad proffesiynol eu hunain.
17. Diwygiwyd y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd yn 2005 i'w gwneud yn anghyfreithlon i wahaniaethu yn erbyn unrhyw un ar sail eu statws HIV o adeg eu diagnosis. Mae'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd yn amddiffyn pobl rhag cael eu trin yn annheg wrth iddynt fynd ati i gael gafael ar wasanaethau, addysg, tai a chyflogaeth.
18. Mae Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG (NHS CEHR) yn adnodd cenedlaethol, strategol ar gyfer GIG Cymru i feithrin galluedd a medrau er mwyn sicrhau bod cleifion a staff yn cael eu

<sup>12</sup>[http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH\\_088185](http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH_088185) a

<http://wales.gov.uk/topics/health/ocmo/publications/cmo/letter/prophylaxis/?jsessionid=FChZK4JVXIMpQHpps5xZYN8qJPDX2PjM3LIPpRDkzqTbTmDZqxGG!2078297436?lang=cy>

<sup>13</sup> <http://www.nhs.walesgovernance.com/display/Home.aspx?a=104&s=13&m=0&d=0&p=0>

trin yn deg ac yn unol â'u hanghenion. Mae hefyd yn cynorthwyo i gyflawni'r dimensiynau cydraddoldeb a hawliau dynol sydd wedi'u hymgorffori ym mhob agwedd ar sefydliadau iechyd o safbwynt cyflawni eu cyfrifoldebau statudol ym maes cydraddoldeb a hawliau dynol.

19. Dywed NHS CEHR fod hyfforddiant cydraddoldeb generig yn digwydd fel rhan o drefniadau cynefino corfforaethol. Rhaid dangos tystiolaeth o gymhwysedd mewn cydraddoldeb o dan y Fframwaith Sgiliau Allweddol ar gyfer cyflogaeth y GIG. Byddai'r angen am hyfforddiant pellach ar faterion cydraddoldeb penodol yn cael ei ganfod fel rhan o Adolygiad Datblygiad Personol yr aelod o staff.
20. Mae NHS CEHR yn ymwybodol o ddwy sesiwn hyfforddi a gynhelir gan wasanaeth iechyd rhywiol Cwm Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sydd wedi cynnwys HIV a gwahaniaethu.
21. Mae polisi a gweithdrefnau cyflogaeth ar gyfer BILlau mewn perthynas â HIV/AIDS yn datgan bod y Polisi Cydraddoldeb yn ymdrechu i sicrhau nad oes yr un ymgeisydd am swydd na chyflogai yn derbyn triniaeth lai ffafriol neu'n cael ei roi o dan anfantais o ganlyniad i amodau neu ofynion na ellir eu cyfiawnhau neu am nad ydynt yn berthnasol i berfformiad deiliad y swydd. Oni bai bod gofynion y swydd yn cyfiawnhau hynny, bydd unrhyw wahaniaethu yn erbyn unigolyn sydd yn HIV positif neu sydd ag AIDS yn groes i'r Polisi Cydraddoldeb. Ymdrinnir yn ddifrifol ac yn gyfrinachol ag unrhyw honiadau o stigmatiddio neu o wahaniaethu. Nid oes yn rhaid i achwynwyr ofni cael eu herlid am eu bod wedi cwyno neu am eu bod yn gysylltiedig â chwyn. Bydd cwynion y gellir eu profi'n cael eu trin fel mater disgyblu ac ymdrinnir â hwy o dan y Polisi Disgyblu.<sup>14</sup>

## Casgliad

22. Mae'r polisiâu cyfredol yn cefnogi'r defnydd o ragofalon cyffredinol fel rhan o'r gweithdrefnau safonol i reoli heintiau ac maent yn cadarnhau hawl pobl sy'n byw â HIV i gael eu trin yn deg ac yn unol â'u hanghenion. Fel yr amlinellwyd ym mharagraff 6 byddwn yn gweithio gyda Rhwydwaith HIV Cymru Gyfan i gau'r bwlch tystiolaeth o ran profiadau pobl sy'n byw â HIV o wahaniaethu, ac i ddatblygu cynllun gweithredu fel y bo'n briodol.

---

<sup>14</sup><http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/263/HIV%20%20AIDS%20Employment%20Poli%20cy.pdf>